



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JJ/03366/19

Mick Antoniw
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

10 Rhagfyr 2019

Annwyl Mick,

Yn fuan byddaf yn gosod Offeryn Statudol gerbron y Cynulliad, sef *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020* sy'n cyflwyno Rheoliadau newydd a fydd yn rheoli'r canfasiad etholiadol blynyddol o 2020 ymlaen. Bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Lluniwyd y Rheoliadau newydd o ganlyniad i raglen waith ar y cyd â Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth y DU i foderneiddio a diwygio'r canfasiad blynyddol. Bydd y Rheoliadau yn cadw elfennau cadarn y canfasiad cyfredol ond byddant yn caniatáu mwy o hyblygrwydd i Swyddogion Cofrestru Etholiadol deilwra'r canfasiad ar gyfer yr aelwydydd yn eu hardal.

Gan fod y cyfrifoldeb am faterion etholiadol sy'n ymwneud ag etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru ac etholiadau'r Cynulliad bellach wedi ei ddatganoli, bu'n rhaid cyflwyno deddfwriaeth ym mhob un o'r tair gweinyddiaeth er mwyn diwygio'r canfasiad. Mae Llywodraeth y DU eisoes wedi gwneud hynny drwy gyflwyno *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) 2019* a wnaed ar 4 Tachwedd 2019.

Byddwch yn cofio bod y Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad yn ddiweddar ar ddrafft o *Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor: Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2019* ac roedd angen y Gorchymyn hwnnw yn y Cyfrin Gyngor er mwyn gallu diwygio'r Rheoliadau Canfasiad yng Nghymru. Cymeradwywyd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan y Cynulliad a chan Dŷ'r Cyffredin, ac roedd disgwyl i'r Gorchymyn gael ei wneud yn y Cyfrin Gyngor ar 13 Tachwedd. Fodd bynnag, nid oedd yn bosibl gwneud y Gorchymyn yn ôl y disgwyl oherwydd yr Etholiad Cyffredinol, ac rwyf wedi cael sicrwydd mai'r bwriad yw y caiff y Gorchymyn ei wneud yng nghyfarfod cyntaf y Cyfrin Gyngor yn dilyn yr etholiad cyffredinol.

Mae angen gosod *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020* ar frys er mwyn gallu cynnal profion pwysig ar y systemau digidol newydd ddechrau mis Chwefror. Er mwyn cyflawni'r amserlen heriol hon, caiff *Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Canfasiad Blynyddol) (Diwygio) (Cymru) 2020* eu gosod ar adeg pan fydd rhai o'r darpariaethau ynddynt y tu hwnt i gymhwysedd y Cynulliad. Fodd bynnag, ni

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chaiff y drafodaeth ar yr Offeryn Statudol ei chynnal hyd nes bod y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor wedi ei gymeradwyo gan y Cyfrin Gyngor.

Rwy'n deall nad yw hyn yn ddull gweithredu delfrydol, ond diben gosod yr offeryn yn awr yw caniatáu digon o amser i'r Cynulliad graffu arno. Rwy'n gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi bod angen i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru gymryd rhan yn y gwaith angenrheidiol o brofi systemau newydd ar yr un pryd ag yn Lloegr a'r Alban.

Yn gywir



Julie James AC/AM

Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

Minister for Housing and Local Government